Y Grŵp Trawsbleidiol ar Ddiabetes
Digwyddiad galw heibio a lansio adroddiad Dyfodol Diabetes
15 Tachwedd 2017

**Cofnodion**

10am – 12pm: Digwyddiad galw heibio i Aelodau'r Cynulliad

12pm – 2pm: Lansio Adroddiad Dyfodol Diabetes (gweler yr agenda)

- Cyflwynwyd Vaughan Gething gan **Dai Williams** (Diabetes UK Cymru) Ysgrifennydd Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

- Sgwrs **Vaughan Gething**
  - Croeso a diolch i bawb am ddod i'r cyfarfod.
  - Ddoe, sef 14 Tachwedd, oedd Diwrnod Diabetes y Byd ac roedd yn braf gweld cymaint o weithgarwch i godi ymwybyddiaeth o'r cyflwr.
  - Mae nifer o broblemau ynghlwm wrth ddiabetes yng Nghymru, gan gynnwys adnoddau, y pwysau ar wasanaethau, darparu addysg i gleifion ac mae angen cydweithio er lles ein cymunedau.
  - Nid yw cyd-gynhyrchu yn golygu pregethu wrth bobl. Mae'n golygu gweithio gyda phartneriaid, y tu mewn a'r tu allan i'r GIG, mewn meysydd allweddol, fel gwaith ataliol. Mae'n braf gweld bod yr adroddiad yn cydnaws â nifer o agweddau ar Gynllun Cyflenwi Diabetes Llywodraeth Cymru (2016-2020).
  - Mae Grŵp Gweithredu Diabetes Cymru yn annog pobl i gymryd rhan yn y sgwrs i amlygu effaith ddifrifol diabetes. Mae'r Llywodraeth a'r GIG am ddarparu gwasanaethau ond ni allant wneud hynny ar eu pennau eu hunain. Mae problemau cyffredin yn y system y gallwn eu datrys drwy gydweithio.
  - Mae diabetes yn awr yn effeithio ar dros 7% ohonom; rydym yn gwario 10% o'r gyllideb arno, sef £100 miliwn. Rydym i gyd yn dymuno gweld y sefyllfa'n gwella.
  - Cydnabod cydafiachedd: ffactorau risg cyffredin, problemau cardiofasgwlaidd a chymorth parhaus i'r rhai sydd â chyflyrau amrywiol.

- Mae angen goresgyn problemau ariannol i gyflawni amcanion cyffredin. Dyna pam mae LlC wedi buddsoddi mewn Arweinydd Clinigol Diabetes, strategaeth gordewdra a'r cynllun arfaethedig i Bennu Isafbris Uned.
- Hyd yma, yng Nghymru rydym wedi llwyddo i fuddsoddi mewn sefydliadau fel Sgrinio Llygaid Diabetig Cymru (DESW) ac, o ganlyniad, mae'r nifer sy'n colli eu golwg wedi gostwng yn arw.
- Yn ôl Arolwg Cenedlaethol o Gleifion Diabetig, mae cleifion yn fodlon â'r gwasanaethau ac mae nifer yr achosion o hypoglycemia wedi gostwng.
- Er mwyn mynd i'r afael ag amrywiad, mae LlC wedi buddsoddi mewn Arweinydd Clinigol i weithio gyda'r byrddau iechyd ac mewn gwasanaethau addysg strwythuredig, mae wedi penodi arweinwyr cenedlaethol i swyddi allweddol, mae wedi rhoi pwyslais ar ofal traed, wedi datblygu Rhwydwaith Diabetes Plant a Phobl Ifanc Cymru, wedi cynnal adolygiad cymheiriaid o bediatreg, wedi sefydlu Gwasanaeth Gwella Uniongyrchol (DES) ar gyfer gofal sylfaenol a system TGCh integredig i alluogi gwasanaethau gofal sylfaenol ac eilaidd i gyfathrebu â'i gilydd.
- Mae cyfleoedd yn ogystal â heriau. Mae angen cydnabod problemau iechyd meddwl, hybu cyfrifoldeb personol a chynnydd seiliedig ar risg ar draws yr holl fyrddau iechyd, gan gynnwys mentrau fel 'Think Glucose'.
- Nid ydym yn berffaith, mae dewisiadau anodd yn ein hwynebu, ond wrth i Lywodraeth Cymru barhau i ymrwymo i weithio gyda phobl ar yr hyn rydym wedi'i wneud yn dda a'r hyn y mae angen ei wella, mae'r dyfodol yn edrych yn dda.

• **Jayne Bryant** (Cadeirydd y Grŵp Trawsbleidiol ar Ddiabetes ac AC Gorllewin Casnewydd):
  - Trosolwg o'i rôl fel Cadeirydd ac AC
  - Ystadegau Diabetes yng Nghymru
  - Adroddiad Dyfodol Diabetes
  - 6 maes allweddol
  - Diolchodd i bawb am ddod i'r cyfarfod

• **Dai Williams (Diabetes UK Cymru)**

- Diolchodd i Ysgrifennydd y Cabinet am ei gyfraniad ac am ddod i'r digwyddiad.
- Rhoddodd grynodeb o'r adroddiad a'r wybodaeth ddiweddaraf am y meysydd gofal canlynol:
  Archwiliad o Nyrsys Diabetes Arbenigol
  Cynlluniau gofal / Presgripsiynau Gwybodaeth
  Gofal sy'n canolbwyntio ar y claf ac iechyd darbodus
  Allison Williams, Cadeirydd AWDIG
  System TGCh
  Peiriannau a thechnoleg i fonitro glwcos yn sydyn
  Llwybr addysg
  Presgripsiynau fideo
  Gwasanaethau pontio

- **Yr Athro Rhys Williams** (Ymddiriedolwr Diabetes UK)
  - Trosolwg o bersbectif byd-eang ar ddiabetes.
  - Mae Ffederasiwn Diabetes Rhyngwladol (IDF) wedi cynnal Diwrnod Diabetes y Byd ers 1991.
  - Caiff ei gynnal ar 14 Tachwedd oherwydd pen-blwydd Banting (un o'r ddau a lwyddodd i ddarganfod inswlin).
  - Roedd am siarad am un agwedd ar adroddiad Dyfodol Diabetes: Gwella mynediad at weithwyr gofal iechyd proffesiynol.
  - Soniodd am ei brofiadau yn gweithio gyda Sefydliad Iechyd y Byd.
  - Profiadau o Nigeria, Pacistan, India a Kenya, gan gynnwys profiadau menywod a diabetes.
  - Credai mai'r syniad mwyaf arloesol yn ystod y 50 mlynedd diwethaf yw'r syniad o greu timau amlddisgyblaeth.

- **Dai Williams (Diabetes UK Cymru)**
  - Crynhodd yr hyd a ddywedodd y siaradwyr.
  - Diolchodd i bawb
  - Anogodd bawb i gael cinio a rhwydweithio.

DIWEDD.